



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mehefin 24, 2020

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Llythyr ar y cyd rhwng Y Gwasanaeth Dysgu â Phenaethiaid

Yn dilyn y cyhoeddiad gan y Cyngor Sir ddydd Gwener 19/06/20, gallwn gadarnhau na fydd disgyblion ysgolion Môn yn dychwelyd ar y 29ain o Fehefin fel y bwriadwyd yn wreiddiol dan gynllun Llywodraeth Cymru.

Bydd y ddarpariaeth yn aros fel y bu ers rhai wythnosau gyda disgyblion yn derbyn addysg o bell a chanolfannau gofal ar agor i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol.

Oherwydd y sefyllfa bresennol yn ffatri 2 Sisters yn Llangedfni, mae'r wybodaeth arbennigol wyddonol yn cynghori'n gryf nad yw'n ddoeth i ddod a nifer fawr o blant i'n hadeiladau ysgolion ar hyn o bryd, o gofio mai 2% sydd wedi mynychu y canolfannau gofal. Byddwn yn parhau i gydweithio gan adolygu y sefyllfa yn ddyddiol a'ch diweddarau pan yn briodol.

Gwnaed y penderfyniad hwn ar lefel gorfforaethol ac hynny ar sail diogelu iechyd trigolion yr Ynys ynghyd â iechyd a diogelwch staff a disgyblion yr ysgolion.

Buom fel ysgolion yn cynllunio'n ofalus gan edrych ymlaen yn fawr iawn at groesawu y disgyblion yn ôl. Rydym oll yn hynod siomedig ond yn cefnogi'r penderfyniad ar sail iechyd a diogelwch pawb. Fodd bynnag, mae trafodaethau yn parhau ynghylch y cynnig i ddisgyblion fynychu eu hysgol leol am amser penodol cyn gwyliau'r haf. Mae hyn yn ddibynnol ar y dystiolaeth wyddonol a meddygol gan ystyried a fydd yr achosion o 2 Sisters wedi ymledu i'r gymuned ehangach ai peidio. Rydym yn derbyn arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae'r Cyngor a'r holl ysgolion hefyd yn siomedig iawn na fyddent mewn sefyllfa i agor am y bedwaredd wythnos fel a gyhoeddwyd yn wreiddiol (Gorffennaf 20-24). Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu sicrhau cytundeb gydag Undebau Llafur ynghylch eu bwriad i ymestyn y tymor ysgol. Byddai hyn y golygu fod staff allweddol mewn ysgolion yn gweithio'n groes i'w contractau cyflogaeth yn ystod y bedwaredd wythnos hon.

Felly, os yw Ynys Môn yn penderfynu rhoi cyfle i ddisgyblion fynychu'r ysgol cyn diwedd tymor yr haf, gallwn gadarnhau mai dydd Gwener, Gorffennaf 17eg fyddai diwrnod olaf tymor yr haf.

Rydym yn diolch i holl staff ein hysgolion sydd wedi gweithio'n galed iawn i ddarparu gofal i blant bregus ac i blant gweithwyr allweddol, ac wedi darparu cyfleoedd dysgu o bell yn ogystal â chydweithio a cynllunio'n drylwyr er mwyn darparu ar gyfer croesawu plant a phobl ifanc yn ôl i'r ysgolion ar ddyddiad i'w bennu yn y dyfodol agos.

Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi gyd am eich eich ymroddiad, eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth dros y cyfnod heriol hwn.

Byddwn yn cysylltu â chi'n fuan gyda diweddaraid ynghylch sefyllfa sy'n datblygu'n ddyddiol ac wrth gwrs yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau gorau ar gyfer ein plant a phobl ifanc ac ar gyfer ein staff.

Cadwch yn saff ac yn ddiogel.

Yn gywir,

Rhys Howard Hughes
(Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)

Penaethiaid Ysgolion Cynradd Ynys Môn